# SL(6)344 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

## Cefndir a Diben

Mae'r Cwricwlwm i Gymru – y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ("y Cod") yn rhoi dyletswydd statudol ar ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir i sicrhau bod eu gwaith o ddylunio a chynllunio cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys ac yn defnyddio'r cysyniadau allweddol (neu'r "datganiadau o'r hyn sy'n bwysig") a nodir yn y Cod. Mae'n diweddaru ac yn disodli'r fersiwn wreiddiol o'r Cod a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2021 ("Cod Gwreiddiol").

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn nodi'r chwe maes dysgu a phrofiad y mae'n rhaid i ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir seilio eu cwricwlwm arnynt, sef y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r Cod yn nodi 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar draws y chwe maes hynny. Rhaid i gwricwlwm a ddyluniwyd neu a fabwysiadwyd gan ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir, yn ogystal â'r dysgu ac addysgu cysylltiedig, gwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn bodloni gofynion Deddf 2021.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft).

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7(i) mewn perthynas â'r Cod.

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau (ym mharagraff 2.3) bod Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddaru y Canllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar-lein yn unol â'r Cod drafft diwygiedig. Cyhoeddwyd y canllawiau'n wreiddiol ar 28 Ionawr 2020 gan ymgorffori'r 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig fel y nodir yn y Cod Gwreiddiol.

   Mae'r Memorandwm yn nodi bod y Llywodraeth wrthi'n diweddaru'r canllawiau "*er mwyn rhoi mwy o amser i ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cyngor hwnnw i lywio eu gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy gydol blwyddyn academaidd 2022/23*".

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Ebrill 2023**